

# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWYD AR Y WE, nos Fercher Mehefin 3ydd, 2020 am 7.45 o'r gloch

## PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Robert M. Jones, Catherine Ll. Morris, William B. Williams (collodd ei gysylltiad wi-fi cyn trafod y Cyfrifon), Cyngorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr; gadawont y cyfarfod ar ôl trafod y ceisiadau cynllunio)

## YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Owi Lloyd-Jones, Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Cyngor ar y we yn y cyfnod dyrys a digyffelyb sydd ohoni a gobeithiai fod pawb yn cadw'n iach.

Yn anffodus, ni allai'r Cyngorwyr Wyn Griffiths ac Alun Jones uno â'r cyfarfod oherwydd nad oes ganddynt gyfrifiadur (mynegont, hefyd, na allent gynnig sylwadau ar geisiadau Aber-soch a Bwlchtocyn gan na wyddent ble'r oedd y safleoedd ac na allent ymweld â hwy oherwydd y sefyllfa bresennol), Owi Lloyd-Jones ac Erfyl W. Roberts (a geisiodd uno drwy wrando ar ei ffôn ond, ni chlywai beth a ddywedid) oherwydd trafferthion â'u cyfrifiaduron. Cyflwynodd Cyng. John Gwilym Jones ei sylwadau ymlaen llaw oherwydd na allai yntau fod yn rhan o'r cyfarfod.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

### 2. CADARNHAU COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Fawrth 10fed (Is-bwyllgor Ariannol) a'r 11eg (Cyngor), 2020 yn gywir.

### 3. EITEMAU BRYG (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

#### a) COVID-19

##### i) Cronfa Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) Llŷn ac Eifionydd

Cysylltwyd â'r Aelodau (trwy e-bost a neges destun ddiwedd mis Mawrth) yn dilyn derbyn cais brys i gynghorau cymuned a thref gyfrannu'n sylweddol at y gronfa uchod a sefydlwyd i brynu cyfarpar diogelu personol i weithwyr allweddol yr ardal ddelio â'r firws – £15,000 oedd y nod ond, derbyniwyd dros £31,000 erbyn diwedd mis Ebrill; penodwyd Dr. Arfon Williams, Meddyg Teulu yn Nefyn, yn Gydlynnydd Ardal. Penderfynwyd cyfrannu £2500.00 (gweler 7. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

##### ii) Caeau Chwarae a Thoiledau

Derbyniwyd gohebiaeth bod rhaid cau'r uchod oherwydd y firws – darparwyd arwyddion a phrynwyd cleon ar eu cyfer (gweler 7. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

- iii) **Gohebiaeth**  
 Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Cymdeithas y Clercod (SLCC), Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r pandemig yn atodi cyfarwyddiadau, canllawiau a chynghor. O ganlyniad, paratowyd Asesiad Risg ac, yn unol â Rheoliadau Sefydlog, y Cyngor dirprwywyd unrhyw benderfyniad/fater brys i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc. Anfonir gohebiaeth ymlaen at yr Aelodau. Yn ffodus, ni chododd unrhyw fater brys hyd yma. Derbyniwyd llythyr a ffurflenni 'furlough' oddi wrth Bacstal Pac hefyd.
- iv) **Cyfarfod Misol/Blynyddol**  
 Mae Rhan 3 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn dileu'r gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol cynghorau cymuned ym mis Mai 2020. Galluogant i Glercod benderfynu ar ba ddyddiad i'w gynnal yn 2020.

#### 4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- C20/0016/39/LL **Cais Diwygiedig** – Newid defnydd rhan o gae pori amaethyddol ar gyfer storio carafanau teithiol – Ty'n-y-Mur Camping Site, Lôn Garmon, Aber-soch – **Cedwir at yr un sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol, sef gwrthwynebir oherwydd y gall ddechrau cynyddu maint y maes carafanau a'r storfa, gan nad oes sicrwydd am y niferoedd a gedwir/ fwriedir eu cadw ar y safle. Maent yn weledol o'r briffordd, Pen y Gaer a Phont Llangian sydd yn rhan o AHNE Llŷn. Ychwanegwyd nad oes fawr o wahaniaeth yn y cynllun diwygiedig a deil wneud y safle'n llawer mwy na'r gwreiddiol. Caniatâd ar gyfer sied wartheg ac iard iddynt gael mynd allan a gafwyd yn wreiddiol nid sied storio**
- C20/0299/39/DT Codi estyniadau unllawr ar flaen a chefn yr eiddo presennol – 227 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau eisoes**
- C20/0228/39/DT Estyniadau unllawr a deulawr i eiddo yn cynnwys ymestyn cegin a chreu ystafell wely en-suite ac ystafell ardd ar lefel llawr daear a chreu ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf, ynghyd â gwaith cysylltiol – Ynysfor, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn llawer rhy fawr i'r safle ac yn orddatblygiad o leoliad ar ochr priffordd brysur o gofio, hefyd, y caniatawyd dymchwel a chodi tŷ o'r newydd drws nesaf yn Ynysfor Bach**
- C20/0249/39/TC **(Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr fel arfer)** Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio adeilad presennol at bwrpas storio fel ag a ganiateir dan ddsbarth defnydd B8 – Storfa, Cae Arfryn, Mynytho – **Cefnogir**
- C20/0280/39/DT Tynnu to fflat ac adeiladu un brig i'r modurdy, ynghyd â gosod byrddau cladio gwyn ar y waliau – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – **Cefnogir**
- C20/0301/39/DT Creu agoriad newydd yn y wal ffin ar gyfer mynedfa gerbydol a chodi ffens postyn a rheiliau i wahanu tramwyfa sy'n cael ei rhannu – Glasfryn, Allt Graigwen, Mynytho – **Cefnogir**
- C20/0342/39/DT Addasiadau a newidiadau gan gynnwys gosod ffenestri to, cladin allanol a chysgodfan ar gyfer ceir, ynghyd â gwaith tir yn cynnwys

C20/0352/39/DT	codi wal gynnal, creu gofod parcio ac ardal patio newydd – 64 Cae Du, Aber-soch – <b>Cefnogir yr addasiadau i'r tŷ ond, pryderir am godi wal gynnal newydd a'r gofod parcio a phenderfynwyd gofyn am osod amod gweithredu pryder/ gwrthwynebiad yr Adran Briffyrdd</b>
C20/0355/39/DT	Gosod pedair ffenestr gromen – Elim, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Cefnogir</b>
C20/0373/39/DT	Estyniad deulawr ochr – Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn dyblu maint y tŷ presennol (un o dai gwreiddiol y pentref), gan lenwi'r safle ac amharu ar breifatrwydd a thywyllu drws nesaf (Mona)</b>
C20/0374/39/LL	Estyniad unllawr ochr – Beach House, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Cefnogir</b>
	Dymchwel annedd presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Leeward, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – <b>Cefnogir, cyn belled ag y cedwir at ôl-troed yr annedd unllawr presennol, gan mai un deulawr yw'r un bwriadedig. Mynegwyd pryder am y diffyg lle parcio o gofio bod gan amryw o anheddau ddau gar a chwch erbyn heddiw ac y saif yr annedd ar ffordd gul</b>

## 5. CADARNHAU CYFRIFON 2019 – 2020

### a) Archwiliad Mewnol

Dosbarthwyd copi o'r cyfrifon ac Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (datganwyd sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor) i bawb cyn y cyfarfod er mwyn i'r Cynghorwyr fynd trwyddynt a chael cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn pe bai rhaid; penderfynwyd yn unfrydol eu derbyn yn gywir. Arwyddir a chofnodir y ffurflen gan y Cadeirydd fel y gall y Clerc ei hanfon â'r ddogfennaeth angenrheidiol at BDO cyn Mehefin 30ain. Dymuna'r Clerc ddiolch yn fawr i'r Archwiliwr Mewnol am ei gymorth yn ystod yr archwiliad ac, o ganlyniad, penderfynwyd gwahodd Adran Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd eto ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

### b) Archwiliad Allanol

Arddangoswyd Hysbysiad Pennu Dyddiad ar gyfer Arfer Hawliau Etholwyr ddechrau mis Ebrill, yn unol â'r gofyniad swyddogol. Ond, oherwydd y sefyllfa bresennol, derbyniwyd un o'r newydd oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru i'w hysbysebu ar wefan y Cyngor yn unig (fe'i rhoddwyd yn yr hysbysfwrdd hefyd). Ychwanegwyd y newidiwyd dyddiadau paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon erbyn Awst 31ain a chyhoeddi'r rhai archwiliedig erbyn Tachwedd 30ain.

## 6. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C19/0812/39/LL	Ymestyn cyfnod meddiannu gwyliau i fod ar agor trwy'r flwyddyn at bwrpas gwyliau – The Warren, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C19/1162/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un annedd newydd – Bryn Benar, Lôn Pen Cei, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C19/1180/39/DT	Estyniadau ac addasiadau i dŷ presennol, gan gynnwys codi lefel y to, estyniad llawr cyntaf a chreu balconi – Tŷ Uchaf, Lôn Wilis, Mynytho – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0060/39/AC	Diwygio Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C14/1184/39/LL er mwyn cadw carafân statig ar y safle am ddeunaw mis ychwanegol i'w

	defnyddio at ddibenion preswyl wrth gwblhau'r gwaith ar y tŷ fforddiadwy newydd a ganiatawyd – Machlud Haul, Llanengan – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0061/39/LL	Dymchwel ac amnewid cwt traeth presennol – Cwt Glan Môr Rhif 3, Borth Fawr, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0085/39/DT	Estyniad cefn a mân newidiadau – Bryn Ochor, 10 Maes Awel – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0146/39/DT	Estyniad unllawr cefn – Morfa, Llanengan – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0158/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd – Nyth y Môr, Bwlchtocyn – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0164/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C16/1336/39/LL er mwyn gostwng lefel y tŷ a gymeradwywyd a chwblhau newidiadau mewnlol – Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0170/39/LL	Estyniad i adeilad toiled/cawod presennol yn cynnwys toiledau, cawodydd, storfa, man golchi llestri/dillad allanol a chanopi – Maes Carafanau Llain Las, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0196/39/DT	'Caban pren' arfaethedig i ddarparu llety cysgu ychwanegol i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'r annedd bresennol – Felin, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C20/0212/39/DT	Codi estyniad deulawr i'r edrychiad blaen, cladin newydd ar hanner uchaf yr eiddo, porth newydd ar ochr yr eiddo, codi wal ffin blaen newydd 1300mm o uchder gan gynnwys wal 1000mm o uchder a ffens top crwn 300mm – Plas Bach, Maes Gwydryn, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0229/39/DT	Codi estyniadau unllawr ar flaen a chefn yr eiddo presennol – 227 Cae Du, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0251/39/DT	Balconi newydd a decin wedi'i godi – The Den, Pen Bennar, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0262/39/RA	Rhyddhau Amodau 4 (llechi), 5 (deunyddiau allanol) ac 11 (manylion diogelu coed) ar Ganiatâd Cynllunio C15/1328/39/AM – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch – <b>Rhyddhawyd yr Amodau'n llawn</b>
C20/0276/39/DA	Diwygiad di-faterol i Ganiatâd Cynllunio C19/0958/39/LL er newid dull cysylltu'r colofnau i wely'r môr, ynghyd â gosod canllaw ar y cei – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin) – <b>Caniatawyd ag amodau</b>

## 7. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

### Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog misoedd Ebrill, Mai a Mehefin (Rh/S 002294, 002299 a 002300), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) W. a G. Williams – £81.95 (Rh/S 002292 – Cloeon ar gyfer y Toiledau a'r Caeau Chwarae)
- b) Tŷ Doctor, Nefyn – £2500.00 (Rh/S 002293 – Cyfraniad at Brynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)) [A137]
- c) Cyngor Gwynedd – £8755.08 (Rh/S 002295 – Treth a Chytundeb Glanhau'r Toiledau)
- ch) Bacstal PAC – £119.14 (D/U – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau Chwarterol)
- d) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002296 – Talu Wrth Ennill)
- dd) E-on – £20.31 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)

- e) Delwedd Ltd. – £70.85 (Rh/S 002297 – Tystysgrif SSL i'r Wefan)
- f) Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd – £2000.00 (Ail Gyfraniad at y Gronfa Leol)
- ff) E-on – £19.45 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)

**Derbyniadau**

- a) Toiledau – £10.90 (Tâl Mynediad – £5.90, £5.00)
- b) Siân Goodman Jones – £16.00 (Rhent Cae Plwy', Mynytho)
- c) Cyfoeth Naturiol Cymru – £9200.00 (Ad-daliad Torri'r Foel 2018 – 2019 a 2019 – 2020)
- ch) Cyngor Gwynedd – £27500.00 (Taliad Cyntaf Praesept 2020 – 2021)
- d) Cyllid a Thollau – £6030.32 (Ad-daliad TAW 2019 – 2020)

**16. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

I'w bennu